



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cais am Dystiolaeth – Holi ac Ateb

## Beth yw Pontio Teg?

Mae'r byd i gyd yn datgarboneiddio ac yn troi oddi wrth economi sy'n dibynnu ar danwydd ffosil. Nod pontio'n deg, wrth i ni symud at greu Cymru sy'n lanach, cryfach a thecach, yw bod neb yn cael ei adael ar ôl. Rhaid i ni ddeall effeithiau'r pontio – y rhai da a'r rhai drwg – a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu rhannu'n deg mewn cymdeithas. Wrth wneud, rydym yn ymrwymo i ddysgu gwersi'r gorffennol ac adeiladu dyfodol i Gymru sy'n cefnogi'r economi llesiant.

Yn [Cymru Sero Net](#) (2021), mae Llywodraeth Cymru yn ailadrodd ein hymrwymiad i Bontio'n Deg oddi wrth economi'r gorffennol sy'n dibynnu ar danwydd ffosil i ddyfodol newydd carbon isel.

Mae'r WCPP yn disgrifio yn eu papur sut mae gwledydd eraill yn mynd i'r afael â phontio'n deg: [www.wcpp.org.uk/publication/international-approaches-to-a-just-transition](http://www.wcpp.org.uk/publication/international-approaches-to-a-just-transition)

## Beth yw pwrpas y Cais am Dystiolaeth?

Pwrpas y cais yw **deall yn well** effeithiau a chyfleoedd y pontio, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn deg. Bydd y Cais am Dystiolaeth yn ein **helpu i ddatblygu llwybr datgarboneiddio Cymru** tuag at fod yn sero net erbyn 2050. Mae'n gam cyntaf hefyd at ddatblygu **Fframwaith Pontio Teg** i Gymru fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2023.

## Beth ydyn ni'n gobeithio ei gael o'r Cais am Dystiolaeth?

**Tystiolaeth ac ymchwil.** Yn ein barn ni, mae'n bwysig deall yn gyntaf beth yw'r arferion gorau, yr effeithiau a'r manteision a beth sydd ei angen i'n helpu i bontio'n deg. Dyna pam, yn y cam hwn o'r broses, mae angen eich dystiolaeth a'ch ymchwil i'n helpu i wybod sut orau i bontio'n deg. Mae hyn yn cynnwys deall yn well yr effeithiau ar Gymru a'r cyfleoedd a ddaw iddi. Sut dylwn ni fynd ati, sut i ymgorffori Pontio'n Deg yn ein holl benderfyniadau a beth sydd ei angen i gefnogi hynny.

### Felly, pwrpas y Cais am Dystiolaeth yw cael dystiolaeth i:

- nodi'r arferion gorau ar gyfer pontio'n deg yng Nghymru
- nodi'r effeithiau a'r cyfleoedd yn yr holl sectorau allyriadau
- y seilwaith a'r gefnogaeth sydd eu hangen i bontio'n deg.

## Beth yw'r Fframwaith Pontio Teg?

Bydd y Fframwaith Pontio Teg yn cynnig ffordd strategol i sicrhau bod y pontio'n deg ac yn gynhwysol ac yn seiliedig ar weledigaeth ar gyfer gwella 'llesiant' cymdeithas a gwireddu amcanion datblygu cynaliadwy. Bydd yr egwyddor 'gadael neb ar ôl' yn ganllaw i'r cyfan. Bydd y Fframwaith wedi'i rannu'n dair elfen:

- **sdeiladu ein sail tystiolaeth** ac ymchwil (deall yr effeithiau ac unrhyw gyfleoedd i wella cydraddoldebau)
- **integreiddio** ein prosesau penderfynu, sectorau a chynlluniau a
- gwneud **ymgysylltu** â'r cyhoedd, busnesau a chymunedau'n rhan annatod ohono.

Y nod yw datblygu a chyhoeddi'r Fframwaith yn 2023.

## Beth yw rôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar Bontio'n Deg drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA) 2015. Mae'r WFGA yn ddarn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n ymgorffori syniadau ynghylch cyfiawnder economaidd-gymdeithasol, gofodol ac amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau ynghyd â chyfiawnder rhwng y cenedlaethau.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol a ddarperir gan y WFGA eisoes yn ceisio osgoi effeithiau annymunol, sicrhau'r cyfleoedd mwyaf all ddod o bontio, a darparu sail deddfwriaethol ar gyfer gwneud egwyddorion tegwch yn sylfaenol i'n hymdrechion i ddatgarboneiddio.

## Sut ydym yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru?

Mae WFGA yn nodi'n "7 [amcan llesiant](#)" yr ydym i gyd yn gweithio at eu cyflawni a'r "ffyrdd o weithio" sef yr egwyddorion ar gyfer eu cyflawni. Rydyn ni'n edrych tua'r tymor hir; cael pobl i gyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw; cydweithio â phartneriaid i gyflawni; meddwl mewn ffordd integredig gan sbarduno manteision niferus; a chwilio am gyfleoedd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol newid.

Mae hynny'n golygu bod ein gwaith pontio teg yn seiliedig ar ddeddfwriaeth sy'n annog llunwyr polisiâu i edrych ar bethau o safbwynt y macro – i ystyried meysydd ac effeithiau allweddol fel marchnadoedd llafur a gallu busnesau i gystadlu (swyddi, sgiliau, gweithlu ac ati) yn ogystal â phobl (cyfiawnder cymdeithasol, rhywedd, ethnigrwydd, grŵp incwm, oed ac ati).

## Sut bydd y pontio i sero net yn effeithio ar bobl Cymru?

Mae pobl, busnesau a chymunedau eisoes yn agored i niwed oherwydd newid. Gall y pontio i net sero olygu effeithiau a chyfleoedd anghymarus i bobl, grwpiau cymdeithas a sectorau Cymru; a bydd llawer o'r rheini eisoes yn gorfod delio â heriau cymdeithasol-economaidd.

Bydd y pontio i sero net yn golygu effeithiau a chyfleoedd gwahanol i sectorau allyrru gwahanol.

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gawn yn sgil y Cais, byddwn yn defnyddio'r Fframwaith Pontio Teg i'n helpu i benderfynu ar gyfeiriad ein polisi ar gyfer cynyddu'r cyfleoedd a lleihau'r effeithiau.

## Pam mae angen pontio'n deg?

Mae pobl Cymru wedi dioddef oherwydd newidiadau economaidd yn y gorffennol, ond nid oes yn rhaid i'r pontio i Gymru sy'n lanach, gwyrddach a thecach fod mor niweidiol.<sup>1</sup> Wrth i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd gynyddu a phrysu, mae'n hanfodol ein bod yn ystyried risgiau peidio â chynllunio'r pontio i sero net. Rhaid wrth bontio teg sy'n hyrwyddo lles Cymru a chyfrannu at ffyniant byd-eang a chynaliadwyedd tymor hir, heb waethygu anghydraddoldebau heddiw.

<sup>1</sup> [Net zero jobs – The Inquiry \(resolutionfoundation.org\)](#)

Mae'r broses yn cynnig cyfleoedd pwysig ond mae yna hefyd heriau a gwendidau. Felly, er mwyn sicrhau pontio teg, rhaid cydnabod yr effeithiau a'r cyfleoedd fydd yn digwydd i grwpiau gwahanol mewn cymdeithas, ar adegau gwahanol a mannau gwahanol ledled Cymru. Dyna pam ein bod yn llunio Fframwaith Pontio Teg i greu gweledigaeth sy'n deg a chynhwysol fydd yn gwella 'llesiant' cymdeithas ac yn 'gadael neb ar ôl'.

## **Pryd y bydd effeithiau'r pontio'n digwydd a'r cyfleoedd yn cael eu gwireddu?**

Rydyn ni eisoes yn gweld rhai newidiadau ac effeithiau, fel y defnydd o gerbydau trydan a safleoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Bydd y newid yn digwydd ar adegau gwahanol. Gallai rhannau o'r economi newid yn gynt wrth i gyfleoedd newydd godi mewn mannau gwahanol. Gallai hynny olygu y bydd rhai marchnadoedd yn colli cyfleoedd a heriau i fusnesau a gweithwyr wrth iddynt geisio pontio'n llwyddiannus a cheisio meithrin sgiliau gwyrdd newydd mewn ffordd amserol.

## **Sut mae gwledydd eraill yn pontio?**

Nid oes diffiniad rhyngwladol o beth yw pontio teg ac mae llawer o drafod wedi bod ar y term. Nid oes un ffordd i bawb chwaith ynghylch sut i fynd ati i bontio'n deg gan fod cymaint yn dibynnu ar y cyd-destun.

Er hynny, mae enghreifftiau rhyngwladol yn tynnu sylw at agweddau cyffredin, megis creu fframwaith ar gyfer ei drefnu, cynllunio tymor hir, meithrin galluoedd a neilltuo arian ar gyfer ei roi ar waith.

Barn yr Alban yw bod cyfle, wrth geisio lleihau allyriadau, i newid cymdeithas mewn ffordd adeiladol a thymor hir. Ar gyfer y broses bontio, maen nhw'n meddwl y bydd eu gweithredoedd i sicrhau tegwch yn hanfodol i gael a chynnal y cymorth sydd ei hangen ar gyfer newid yn gyflym ac ar raddfa fawr.

Yn Seland Newydd, un o brif ystyriaethau pontio teg yw sbarduno a chefnogi'r rhanbarthau i gynllunio a rheoli effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y pontio. Mae pontio llwyddiannus yn golygu bod rhanbarthau'n gallu nodi a manteisio ar gyfleoedd newydd gan reoli'r effeithiau mewn ffordd sy'n deg a chyfiawn. Maen hwythau am i'r pontio fod yn deg a chynhwysol.

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi nodi sut mae nifer o wledydd wedi mynd ati i bontio'n deg yn y ddogfen atodedig: [www.wcpp.org.uk/publication/international-approaches-to-a-just-transition](http://www.wcpp.org.uk/publication/international-approaches-to-a-just-transition)

## **Pwy fydd yn teimlo effeithiau'r newid i sero net?**

Mae'n bosib y gallai pawb deimlo effeithiau'r newid a dyna pam rydyn ni'n gofyn am dystiolaeth, er mwyn deall y sefyllfa'n well. Mae'n debygol y bydd poblogaethau a grwpiau gwahanol mewn cymdeithas, gan gynnwys grwpiau incwm, cymunedau, gweithwyr a busnesau, yn gweld effeithiau a chyfleoedd gwahanol.

## **Sut bydd yr argyfwng costau byw'n effeithio ar bontio teg?**

O safbwynt costau byw, mae hyd yn oed yn bwysicach cael hyd i ffyrdd o daclo'r argyfwng costau byw, a diogelu aelwydydd, gweithwyr a busnesau yng Nghymru heb waethygu argyfwng yr hinsawdd; a chadw manteision y newidiadau hyn i'r unigolyn a'r gymuned, o ran iechyd a lles, yr amgylchedd lleol ac arbed costau. Mae'r ffordd yr awn i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd a'r argyfwng costau byw, yn helpu i sicrhau bod y pontio yng Nghymru yn digwydd mewn ffordd deg.

## Beth yw'r berthynas rhwng pontio'n deg a newid ymddygiad

Mae angen i bob rhan o gymdeithas weithredu ar frys i leihau'n hallyriadau nwyon tŷ gwyrdd a chryfhau er mwyn gallu gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Yn ôl y Pwyllgor Newid Hinsawdd, mae bron 60% o'r newidiadau sydd angen eu gwneud i gyrraedd sero net yn golygu rhyw fath o newid ymddygiad gan gymdeithas.<sup>2</sup>

Rhaid sicrhau'r newid ymddygiad hwn mewn ffordd deg. Yn y lle cyntaf, byddwn yn canolbwyntio ar y rheini sydd ag ôl troed carbon mwy ac sy'n gallu newid eu ffordd o fyw. Drwy wneud, byddwn yn ceisio gwireddu'r manteision, gan wella llesiant a chreu cymdeithas fwy cyfartal a charbon isel i bawb.

## Beth yw Swyddi Gwyrdd?

Bydd swydd sy'n cael ei hystyried yn wyrdd heddiw yn swydd gyffredin yn y dyfodol. Mae'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) a [Thasglu Swyddi Gwyrdd y DU](#) yn esbonio nad oes un diffiniad o swydd werdd. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn paratoi dau amcangyfrif gwahanol o swyddi gwyrdd. Nid oes ystyr penodol i swydd werdd felly mae hwn yn faes cymhleth. Defnyddir mwy nag un diffiniad yn aml a bydd diffiniadau gwahanol yn addas at ddibenion gwahanol. At ddiben y Cais hwn am Dystiolaeth, mae swyddi gwyrdd yn golygu swyddi yn y diwydiant ynni adnewyddadwy ac arbed ynni. Ond gall hyn newid wrth i Lywodraeth Cymru ddod i ddeall y pwnc yn well.

Mae'r ONS, fel rhan o'r [prosiect Swydd Gwyrdd](#), yn datblygu diffiniad clir o swyddi gwyrdd. Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r gwaith hwnnw pan fydd wedi'i gwblhau.



<sup>2</sup> [Net Zero – The UK's contribution to stopping global warming – Climate Change Committee \(theccc.org.uk\)](https://www.theccc.org.uk/reports/net-zero-2025/)